HQIP
Healthcare Quality Improvement Partnership

RCPCH
Royal College of Paediatrics and Child Health
Leading the way in Children's Health

NPDA
National Paediatric Diabetes Audit

# Datganiad Preifatrwydd yr NPDA


**Datganiad Preifatrwydd yr NPDA** .................................................. 1

**Pa ddata ydym ni'n gasglu, a pham?** .................................................2

**Sail gyfreithiol prosesu** ............................ Error! Bookmark not defined.

**Gwybodaeth a rannwn** ............................ Error! Bookmark not defined.

**Am ba hyd y byddwch yn cadw data amdanaf?** ................................. 4

**Alla'i optio allan o'r NPDA trwy'r gwasanaeth Cenedlaethol Optio Allan o Ddata?** ..............................................................................5

**Alla'i optio allan o'r NPDA trwy unrhyw ddull arall?** ...........................5

**Cyrchu, dileu a diweddaru eich gwybodaeth bersonol** .......................6

**Newidiadau i'n polisi preifatrwydd** ....... Error! Bookmark not defined.

**Gwybodaeth bellach a sut i gysylltu â ni** ............ Error! Bookmark not defined.

# Pa ddata ydym ni'n gasglu, a pham?

Mae'r Bartneriaeth gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) wedi comisiynu'r RCPCH i gynnal yr Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol (NPDA). Pwrpas yr archwiliad yw monitro nifer y gwahanol fathau o ddiabetes ymysg plant a phobl ifanc ar lefel Brydeinig, a monitro a chymharu ansawdd y gofal a dderbynnir a deilliannau a gyrhaeddir gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o wahanol unedau diabetes pediatrig a rhanbarthau. Bydd hyn yn arwain at welliant yn y gofal a ddarperir i blant â diabetes, eu deilliannau, a phrofiadau cleifion a theuluoedd.

Er mwyn cynnal yr archwiliad hwn ar ran HQIP ac NHS England a HQIP ac IGDC (cyd-reolwyr data'r archwiliad), mae'r RCPCH (y prosesydd data) yn casglu data cleifion a gasglwyd gan unedau diabetes pediatrig (PDU) ynglŷn â chwblhau'r gwiriadau iechyd a argymhellir ac a wnaed i'r plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan eu gwasanaeth, yn ogystal â chanlyniadau'r gwiriadau iechyd hyn. Mae modd gweld y set ddata gyflawn a gasglwyd yma.  Mae'r data a gesglir yn cael eu cadw ar weinyddion diogel sy'n cwrdd â'r holl ofynion deddfwriaethol o ran diogelu data ac fe'u delir yn yr UE. Byddwn yn casglu data o PDU yng Nghymru, Jersey a Lloegr.

Mae cymryd rhan yn yr archwiliad hwn yn orfodol i bob ysbyty yn Lloegr yn ôl contract safonol y GIG, ac yn orfodol yng Nghymru yn ôl Cynllun Archwiliad Clinigol ac Adolygu Deilliannau 2022-2023 GIG Cymru. Mae eich gwybodaeth yn bwysig, oherwydd heb y data hyn, ni fyddai modd i ni gynnal yr archwiliad hwn, a byddai hyn yn ei dro yn ei gwneud yn anodd gwneud gwelliannau yn genedlaethol i ofal diabetes pediatrig.

Yn ogystal â chasglu gwybodaeth gan PDU, rydym hefyd yn gwahodd plant a phobl ifanc â diabetes (a'u rhieni/gofalwyr) i gwblhau arolygon ar-lein o'r enw Mesuriadau Profiadau a Adroddir gan Gleifion (PREM). Mae'r rhain yn holi cwestiynau am y gofal a roddir gan eich clinig.  Mae'r atebion a dderbyniwn yn ddienw, felly 'does dim  modd eu holrhain yn ôl i gleifion unigol. Bydd yr adborth a gawn gan blant a phobl ifanc yn cael ei gyflwyno mewn adroddiad cenedlaethol ac adroddiadau i glinigau unigol i'w helpu i ddeall beth maent yn wneud yn dda a beth allent wneud yn well, yn ôl y plant a'r bobl ifanc (a'u rhieni) sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

# Sail gyfreithiol prosesu

**Cymru a Lloegr**

Mae gan yr NPDA ganiatâd adran 251 i gasglu data lle mae modd adnabod cleifion yng Nghymru a Lloegr heb gydsyniad penodol y claf, oherwydd bod eu hamcanion er budd y cyhoedd, gan y bydd yr archwiliad yn helpu i wella safonau gofal diabetes pediatrig. I wybod mwy am ganiatâd adran 251, ewch at wefan yr Awdurdod Ymchwil Iechyd.

Mae'r NPDA yn dibynnu ar y canlynol o ran prosesu data personol: Atodlen 1 (1)(3) Deddf Diogelu Data y DU – gyda Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 Rhan 1Adran 2, dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol i wella ansawdd gwasanaethau yn sail i hyn.

Caniateir prosesu dan GDPR ar y seiliau cyfreithiol canlynol:

- **Erthygl 6 (1) (e) mae prosesu'n angenrheidiol i wneud tasg a gyflawnwyd er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr.** Mae cyfiawnhad dros hyn trwy drefniadau comisiynu sy'n cysylltu'n ôl ag NHS England a Llywodraeth Cymru.

- **Erthygl 9 (2) (i) mae prosesu'n angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd cyhoeddus, megis amddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddygol neu ddyfeisiadau meddygol, ar sail cyfreithiau'r Undeb neu Aelod-Wladwriaethau sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a rhyddid gwrthrych y data, yn benodol, cyfrinachedd proffesiynol.** Mae cyfiawnhad dros hyn gan mai nod yr NPDA yw sbarduno gwelliannau yn ansawdd a diogelwch gofal a gwella deilliannau i gleifion.

Mae'r NPDA yn rhannu data gydag NHS England fel rhan o'r Strategaeth Gweithredu Dolen Gaeedig Hybrid, fel y gofynnir amdano trwy Hysbysiad Darparu Data (DPN). Caniateir hyn dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 Adrannau 259(1)(a) a 259(1)(b), sy'n mynnu bod cyrff iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr a enwir mewn DPN yn darparu'r data y gofynnir amdano.

**Jersey**

Yn Jersey, caniateir prosesu dan gyfraith Diogelu Data (Jersey) 2018 ar y seiliau cyfreithiol isod:

- Budd y cyhoedd dan ddyletswydd cyfraith gwlad o gyfrinachedd

# Gwybodaeth a rannwn

Gall data gael ei rannu gyda thrydydd partïon at ddibenion gwerthuso gwasanaeth neu wella ansawdd gan ymchwilwyr academaidd allanol. Bydd y gwasanaeth Cenedlaethol optio Allan o Ddata yn gymwys i ddata a rennir at ddibenion ymchwil.

Rhennir data yn unig ar ffurf ddienw will only ever be shared in a pseudonymised format (oni fydd gan y sefydliad sy'n gwneud y cais ei sail gyfreithiol ei hun dros ddal data lle mae modd adnabod cleifion) a hynny'n unig os bydd HQIP yn cymeradwyo. I HQIP gymeradwyo'r cais, rhaid i'r sawl sy'n gwneud y cais allu dangos eu bod yn cydymffurfio â pholisïau a threfniadau llym i ddiogelu data , a rhaid cymeradwyo nod yr ymchwil, yn ôl y canllawiau i ymgeiswyr sydd gan HQIP. Ni ddylid trosglwyddo data personol i wlad na thiriogaeth y tu allan i'r AEE.

Mae'r NPDA hefyd yn cydweithredu â'r Archwiliad Diabetes Cenedlaethol a reolir gan NHS England i gynhyrchu archwiliadau o ofal oedolion ifanc. Mae'r fenter hon yn golygu bod data lle gellir adnabod cleifion yn llifo i sefydliadau trydydd parti y gellir ymddiried ynddynt (NHS England) dan Gyfarwyddiadau dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 i gysylltu â'u setiau data. Cyhoeddir adroddiad archwilio blynyddol sydd ar gael i'r

cyhoedd trwy ein gwefan a thrwy data.gov.uk. Adroddir am bob data ar lefel unedau diabetes pediatrig unigol fel na fydd unrhyw ddata lle gellir adnabod cleifion fyth yn cael ei gyhoeddi. Mae gwybodaeth am breifatrwydd ynghylch yr archwiliad hwn ar gael gan NHS England**.**

Mae'r NPDA hefyd wedi rhannu data gydag NHS England i ymchwsilio i rôl heintiad COVID-19 a Diabetes Math 1 mewn plant, pobl yn eu harddegau ac oedolion ifanc dan Reoliad 3(4) Rheoliadau Gwybodaeth Cleifion y Gwasanaeth Iechyd 2002. Mae mwy o wybodaeth am y ddeddfwriaeth i'w gael yma**.**

Mae data lle gellir adnabod cleifion a gesglir o PDU yn Lloegr yn cael ei rannu gydag NHS England bob chwarter fel rhan o strategaeth gweithredu dolen gaeedig hybrid (HCL) 5-mlynedd. Mae mwy o wybodaeth am y strategaeth ar gael yma. Bydd y data hyn yn caniatáu i NHS England ad-dalu byrddau gofal integredig am unrhyw HCL a brynwyd ac a ddarparwyd i gleifion yn eu hardal.

Ar ôl i'r hyn a allai beri adnabod cleifion gael ei dynnu o'r data yn y rhaglen hon, gellir defnyddio'r data at ddibenion ymchwil eilaidd. Mae Caniatâd Cyffredinol Cronfa Ddata Ymchwil HQIP i'r NCAPOP yn caniatáu'r ail-ddefnyddio hwn dan A.251 Deddf y GIG 2006 (Cyfeirnod 24/CAG/0108).

Am fwy o wybodaeth am rannu data at ddefnydd y tu allan i'r NPDA, gweler:: Hysbysiad Preifatrwydd NCAPOP – HQIP

**Trosglwyddo Data yn Rhyngwladol rhwng Lloegr a Jersey**

Gan fod Jersey y tu allan i'r DU, ystyrir hyn yn drosglwyddo rhyngwladol dan UKGDPR, felly mae angen gwiriadau ychwanegol er mwyn gofalu bod gan unrhyw ddata personol lefel gyfatebol o warchodaeth y naill wlad a'r llall. Mae Swyddfa  Comisiynydd Gwybodaeth Jersey yn tybio fod y DU yn ddigonol, a thybiodd y DU fod gan Jersey lefel ddigonol o warchodaeth, felly nid oes angen unrhyw gamau pellach i sicrhau trosglwyddo eich data personol rhwng y DU a Jersey.

# Am ba hyd y byddwch yn cadw data amdanaf?

Mae tîm yr NPDA yn yr RCPCH yn gweithredu fel y rheolwr data ar ran HQIP, sydd yn rheolwyr data i ddata'r NPDA. Bydd yr RCPCH yn dal data'r NPDA cyhyd ag y bydd ganddynt gontract i gyflwyno'r NPDA. Caiff yr holl ddata ei ddileu neu ei drosglwyddo'n ôl i HQIP o fewn pythefnos o derfyn ein contract yn ôl cyfarwyddiadau HQIP.

# Yn Lloegr, alla'i optio allan o'r NPDA trwy'r gwasanaeth Cenedlaethol Optio Allan o Ddata?

**Lloegr**

Yn Lloegr, mae'r gwasanaeth Cenedlaethol Optio Allan o Ddata yn caniatáu i gleifion 13 oed neu hŷn (neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni dros gleifion dan 13) optio allan o gael eu gwybodaeth wedi ei ddefnyddio at ddibenion y tu hwnt i'w gofal uniongyrchol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar ôl ystyried y cyngor gan Grŵp Ymgynghorol ar Gyfrinachedd mewn Ymchwil Iechyd, wedi penderfynu na fydd y gwasanaeth Cenedlaethol Optio Allan o Ddata yn cael ei gymhwyso i'r NPDA.

Mae hyn oherwydd y gallai cymhwyso'r Optio Allan Cenedlaethol gyflwyno gogwydd i'r data a'i gwneud yn anodd monitro diogelwch ac ansawdd gofal mewn darparwyr gofal iechyd, a hynny'n arwain at ansawdd gwael mewn gwasanaethau gofal ac iechyd, gan beryglu diogelwch cleifion. Gallai hefyd leihau effaith y data  ar wella gofal yn lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, gallwch ddal i optio allan o gael eich gwybodaeth bersonol wedi ei ddefnyddio ar gyfer yr archwiliad hwn. Rhowch wybod i'ch tîm diabetes pediatrig, ac fe wnânt hwy eich tynnu allan o'r cyflwyniad fel na fyddwn yn derbyn eich data. Dewis arall yw i chi gysylltu'n uniongyrchol â thîm yr NPDA ar NPDA@rcpch.ac.uk ac fe wnawn yn siŵr fod unrhyw beth sy'n peri eich adnabod yn bersonol yn cael ei dynnu allan o'n cronfa ddata.

Caiff y gwasanaeth Cenedlaethol Optio Allan o Ddata ei gymhwyso i ddata a rennir at ddibenion ymchwil.

# Alla'i optio allan o'r NPDA trwy unrhyw ddull arall?

Gallwch. Mae modd i chi optio allan trwy ofyn i'ch tîm diabetes pediatrig beidio â chyflwyno unrhyw ddata i'r RCPCH i'w gynnwys yn yr NPDA.

Gallwch hefyd gysylltu â thîm yr NPDA trwy npda@rcpch.ac.uk

**Optio Allan yn Jersey**

I arfer eich hawl i optio allan o gael eich data wedi'i ddefnyddio ar gyfer yr Archwiliad Cenedlaethol ac ymchwil, e-bostiwch y tîm Archwilio Clinigol ar HSSClinicalAuditDepartment@health.gov.je. Gallwch hefyd ofyn i brosesu eich data at ddibenion yr archwiliad cenedlaethol gael ei gyfyngu trwy'r ffurflen ar-lein sydd i'w gweld yn *eich hawliau data personol*. Caiff data cleifion o Jersey sydd wedi optio allan ei eithrio o lifau data i Loegr.

## Cyrchu, dileu a diweddaru eich gwybodaeth bersonol

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu yr hoffech wneud unrhyw geisiadau hawliau yng nghyswllt eich cofnod fel claf, cysylltwch â'ch uned yn uniongyrchol. O ran y data a gasglwn i archwiliad yr NPDA, mae gennych yr hawliau canlynol:

- Hawl i Gyrchu: Mae'r data personol a ddaliwn amdanoch yn cael ei ddarparu gan eich uned. Gallwn roi gwybod i chi pa gategorïau o ddata a gasglwn ond bydd angen i chi gysylltu'n uniongyrchol â'ch uned am gopi o'ch data personol am mai hwy yw rheolwyr data eich cofnod fel claf.
- Hawl i Ddileu: Nid yw'r hawl i ddileu yn gymwys i'r archwiliad hwn oherwydd bod eich data yn cael ei brosesu er mwyn gwneud tasg er budd y cyhoedd, sef yn yr achos hwn, sicrhau safonau uchel o ansawdd a diogelwch mewn gofal iechyd.
- Hawl i Wrthwynebu: Gweler yr adrannau 'Yn Lloegr, Alla'i optio allan o'r NPDA trwy'r gwasanaeth Cenedlaethol Optio Allan o Ddata?', 'Alla'i optio allan o'r NPDA trwy unrhyw ddull arall?' ac 'Optio Allan yn Jersey' uchod.
- Hawl i Gywiro: Dylai unrhyw geisiadau i newid neu ddiweddaru eich data personol gael eu hanfon at eich uned gan nad ni yw rheolwyr data'r wybodaeth amdanoch fel claf. Os byddwn yn derbyn unrhyw geisiadau, byddwn yn eu hanfon ymlaen at yr uned.
- Hawl i Gyfyngu: Dylai unrhyw geisiadau am gyfyngu ar brosesu gael eu hanfon at eich Ymddiriedolaeth ac fe fyddant hwy yn rhoi gwybod i ni lle bo hynny'n gymwys. Bydd unrhyw geisiadau a dderbyniwn yn cael eu hanfon ymlaen at eich uned.

I ddod i wybod mwy am eich hawliau, ewch at wefan y SCG. Os hoffech wneud cais yng nghyswllt y data a ddelir gan y RCPCH, e-bostiwch dîm prosiect yr NPDA: NPDA@rcpch.ac.uk. Mae a wnelo hyn yn unig â'r data a broseswyd gan y RCPCH at ddibenion yr archwiliad. Os hoffech wneud cais yng nghyswllt eich cofnod gofal iechyd, bydd angen i chi gysylltu â'ch ymddiriedolaeth/bwrdd iechyd yn uniongyrchol gan mai hwy yw rheolwr data y wybodaeth hon ac fe allant roi gwybod i chi am ba hawliau sy'n gymwys.

## Newidiadau i'n polisi preifatrwydd

Diweddarwyd y polisi preifatrwydd hwn ddiwethaf ym mis Chwefror 2025.

## Gwybodaeth bellach a sut i gysylltu â ni

Os hoffech fwy o wybodaeth am yr NPDA, cysylltwch ag npda@rcpch.ac.uk neu ffoniwch ni ar 020 7092 6167. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am y modd y rhennir eich gwybodaeth at ddibenion yr archwiliad, cysylltwch yn gyntaf â'ch tîm diabetes.

NHS England a HQIP yw cyd-reolwyr data yr archwiliad hwn. Mae modd cysylltu â HQIP hefyd os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am y modd y defnyddir eich gwybodaeth ar gyfer yr archwiliad: data.protection@hqip.org.uk.  Os oes gennych unrhyw bryderon am y modd mae eich data personol yn cael ei brosesu gan y RCPCH, gallwch hefyd gysylltu â Swyddog Diogelu Data y RCPCH: information.governance@rcpch.ac.uk.

Os ydych yn byw yn y DU, mae gennych hawl hefyd i gyflwyno cwyn gyda'r SCG os oes gennych bryderon am y ffordd mae data personol chi/eich plentyn yn cael ei drin: casework@ico.org.uk. Os ydych yn byw yn Jersey gallwch gwyno wrth Jersey Office of the Information Commissioner.